Teitl y Swydd: Rheolwr Gweithrediadau'r Academi ac Ieuenctid

Uned/Ysgol: Chwaraeon Met Caerdydd

Gradd: 5 A/B

HERA: CMETS130

Prif ddiben y rôl

Bydd Rheolwr Gweithrediadau'r Academi ac Ieuenctid yn darparu arweinyddiaeth weithredol ar draws rhaglenni pêl-droed academi ac ieuenctid bechgyn a merched Clwb Pêl-droed Met Caerdydd, gan sicrhau bod amgylchedd pêl-droed diogel, sy'n cydymffurfio â'r gofynion ac o ansawdd uchel yn cael ei gynllunio, ei gydlynu a'i ddarparu'n effeithiol.

Gan gydweithio â Chyfarwyddwr y System Bêl-droed, Arweinydd Hyfforddi'r Clwb, Cydlynydd Pêl-droed y Merched, yr Arweinwyr Cyfnod perthnasol a Chymdeithas Bêl-droed Cymru, bydd deiliad y swydd yn goruchwylio pob agwedd ar weithrediadau'r Academi, gan gynnwys gweinyddu, logisteg, cydymffurfiaeth reoleiddiol, cydlynu'r gweithlu, rheolaeth ariannol a chynllunio gweithredol.

Bydd y rôl yn ganolog i sefydlu a chynnal prosesau gweithredol effeithiol, cefnogi staff a gwella profiad chwaraewyr a'u teuluoedd, gan gyfrannu at dwf cynaliadwy ac amcanion strategol system bêl-droed ehangach Clwb Pêl-droed Met Caerdydd.

Prif gyfrifoldebau a chyfraniadau

- Arwain a rheoli gweithrediadau dyddiol yr Academi a'r rhaglenni pêl-droed ieuenctid, gan gynnwys gweinyddu, rheolaeth ariannol, cynllunio gweithredol a chydlynu adnoddau.
- Arwain a chydlynu proses drwyddedu flynyddol Academi Cymdeithas Bêl-droed Cymru, gan gadw cofnodion cywir, goruchwylio gofynion cydymffurfio a rhoi gwelliannau priodol ar waith i sicrhau bod y Clwb yn bodloni'r safonau gofynnol.
- Goruchwylio'r holl ofynion logistaidd a gweithredol sy'n gysylltiedig â hyfforddiant, gêmau a chystadlaethau'r Academi, gan gynnwys dyrannu cyfleusterau, trefniadau staffio, cofrestru chwaraewyr, gweithrediadau diwrnod gêm a datblygu prosesau gweinyddol effeithiol.
- Cydweithio ag Arweinydd Hyfforddi'r Clwb (Arweinydd Technegol yr Academi), Rheolwr y Tîm Cyntaf a'r Arweinwyr Cyfnod perthnasol i gefnogi prosesau datblygu, recriwtio, cadw, rhyddhau a chynnydd chwaraewyr a staff,

gan sicrhau aliniad a chysylltiadau effeithiol rhwng yr Academi, y Brifysgol ac amgylcheddau pêl-droed hŷn, a chefnogi llwybr gyrfa ddeuol unigryw'r Clwb.

- Cydweithio â Chydlynydd Pêl-droed y Merched i gefnogi datblygiad parhaus Academi'r Merched, gan sicrhau safonau gweithredol cyson a hyrwyddo integreiddio a chydweithio effeithiol ar draws llwybrau bechgyn a merched y Clwb.
- Sicrhau bod gweithrediadau'r Academi yn cydymffurfio â holl reoliadau perthnasol y cyrff llywodraethu, gofynion diogelu, gweithdrefnau iechyd a diogelwch a pholisïau'r Brifysgol, gan hyrwyddo amgylcheddau diogel, cynhwysol a chadarnhaol i chwaraewyr a staff.
- Datblygu a chynnal perthnasoedd cryf â chymunedau lleol, ysgolion, clybiau pêl-droed proffesiynol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i wella ymgysylltiad, cryfhau llwybrau chwaraewyr a hyrwyddo effaith gymdeithasol y Clwb.
- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol y Brifysgol, gan gynnwys Gweithrediadau Chwaraeon Met Caerdydd, i sefydlu perthnasoedd gwaith effeithiol, symleiddio prosesau gweithredol a chefnogi cyflawni amcanion strategol ehangach y Clwb.
- Gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Datblygu Busnes a chydweithwyr marchnata canolog i hyrwyddo'r Academi, cynyddu ei hamlygrwydd a chryfhau ymgysylltiad â chwaraewyr, teuluoedd a chymunedau ehangach drwy sianeli cyfathrebu a digwyddiadau priodol.
- Cefnogi Cyfarwyddwr y System Bêl-droed a'r Tîm Datblygu Busnes i nodi a chyflwyno cyfleoedd masnachol a chynhyrchu incwm, gan gynnwys nawdd, codi arian, digwyddiadau a phartneriaethau, yn unol ag amcanion a thargedau ariannol cytunedig.
- Cydweithio â'r Rheolwr Datblygu Chwaraeon a'r Gweithlu i gydlynu gwersylloedd pêl-droed blynyddol ac archwilio rhaglenni pêl-droed ieuenctid ychwanegol sy'n cefnogi cyfranogiad, ymgysylltu â'r gymuned a thwf cynaliadwy darpariaeth bêl-droed y Clwb.

Manyleb y person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaeth broffesiynol

- Trwydded UEFA B
- Dyfarniad Diogelu Cymdeithas Bêl-droed Cymru
- Dyfarniad Cymorth Cyntaf Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Profiad o weithio mewn rôl arwain ar lefel Academi.
2. Profiad amlwg o gefnogi prosesau cynnydd a throsglwyddo chwaraewyr ar draws amgylcheddau pêl-droed Academi, hŷn a phroffesiynol.
3. Profiad o waith gweinyddol a logistaidd.
4. Y gallu i weithio fel rhan o dîm amrywiol ond hefyd i arwain yn rhagweithiol, yn unol ag amcanion strategol ehangach y Clwb / Prifysgol Metropolitan Caerdydd.
5. Y gallu i gynllunio, gweithredu ac adolygu darpariaeth ar draws ystod eang o weithrediadau, gan gynnwys mireinio polisïau a gweithdrefnau yn barhaus.
6. Gwybodaeth helaeth am strwythurau academïau, trwyddedu a gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â thirwedd newidiol pêl-droed Cymru.
7. Dealltwriaeth gadarn o lwybrau datblygu pêl-droed, strwythurau Academi a'r gofynion gweithredol sy'n gysylltiedig â recriwtio, cadw, rhyddhau a chynnydd chwaraewyr.
8. Y gallu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol, llawn ymddiriedaeth a chefnogaeth â staff, chwaraewyr ifanc a rhanddeiliaid allweddol eraill.
9. Gwybodaeth am weithdrefnau a phrosesau iechyd a diogelwch.
10. Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol ac agwedd at waith sy'n adlewyrchu gofynion y rôl.
11. Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cryf ag ystod eang o randdeiliaid allweddol.
12. Y gallu i weithio dan bwysau.

Dymunol

1. Deiliad Trwydded UEFA A
2. Profiad o weithio mewn amgylchedd elitaidd
3. Gradd berthnasol / NVQ

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac yn rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Ceir gwybodaeth am y lefelau yn ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os nodir bod sgìl yn hanfodol yn y tabl isod, sicrhewch eich bod yn dangos hynny yn eich ffurflen gais ar-lein.Welsh language skills levels.

Lefel iaith a disgrifiad cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr **Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn Gymraeg.**	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 – Defnyddiwr sylfaenol **Yn gallu ymdrin â gwybodaeth syml a chlir a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.**				
B1 – Defnyddiwr canolradd **Yn gallu cyfathrebu i raddau cyfyngedig yn Gymraeg am bethau cyfarwydd a/neu bethau sy'n ymwneud â gwaith.**				
B2 – Defnyddiwr uwch-ganolradd **Yn gallu mynegi fy hun yn Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr Cymraeg iaith gyntaf.**				
C1 – Defnyddiwr rhugl **Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg.**				
C2 – Defnyddiwr meistrolgar **Yn gallu cyfathrebu'n rhugl am faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.**				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae angen gwiriad DBS manwl ar gyfer y swydd hon.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen gwneud newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person hon fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ymddygiad moesegol a phroffesiynol. Felly, disgwylir i bob cyflogai roi sylw dyledus i effaith ei ymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob cyflogai ddangos ei fod yn cadw at ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob cyflogai roi sylw arbennig i'w gyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.